

Polisi Arolygu Fframwaith Diogelu Gwybodaeth



Rhif y Fersiwn:	1.1
Dogfen Statws:	Cymeradwywyd
Dyddiad Cymeradwyo:	19 Ebrill 2018
Cymeradwywyd Gan:	Grŵp Llywio'r Fframwaith Diogelwch Gwybodaeth
Dyddiad Dod i Rym:	19 Ebrill 2018
Dyddiad yr Adolygiad Nesaf:	Mawrth 2020

1 Diben

Mae'n rhaid i Fframwaith Diogelu Gwybodaeth y Brifysgol barhau i fod yn addas i'r diben. Yn unol â hyn, mae'r polisi hwn yn pennu gofyniad ar gyfer adolygiad blynyddol o'r Fframwaith Diogelwch Gwybodaeth ac mae'n diffinio amcanion a chwmpas yr adolygiad hwnnw a chyfrifoldebau cysylltiedig.

2 Cwmpas

Mae'r polisi hwn yn cynnwys Fframwaith Diogelu Gwybodaeth y Brifysgol gan ddefnyddio'r un cwmpas â'r un nodir yn y Polisi Diogelwch Gwybodaeth.

3 Cysylltiad â pholisïau sy'n bodoli'n barod

Mae'r polisi hwn yn rhan o'r Fframwaith Rheoli Diogelwch Gwybodaeth. Dylid ei ddarllen mewn cysylltiad â'r Polisi Diogelwch Gwybodaeth a'r holl bolisïau ategol.

4 Datganiad Polisi

Caiff y Fframwaith Diogelwch Gwybodaeth ei adolygu'n flynyddol er mwyn penderfynu a yw wedi cyflawni'r canlyniad(au) a fwriedir dros y flwyddyn ddiwethaf, er mwyn adolygu'r amcanion wrth symud ymlaen ac i nodi cyfleoedd ar gyfer gwelliant parhaus.

5 Polisïau

5.1 Caiff y Polisi Diogelwch Gwybodaeth ei adolygu'n flynyddol er mwyn sicrhau bod y Fframwaith ar y cyfan yn parhau i fod yn addas at y diben ac i nodi cyfleoedd ar gyfer gwelliant parhaus. Bydd yr adolygiad yn ystyried statws gweithredoedd o adolygiadau blaenorol y rheolwyr; bydd yn cynnwys newidiadau i faterion allanol a mewnol sy'n berthnasol i'r fframwaith ac adborth ar y perfformiad o ran diogelwch gwybodaeth. Ni fydd yr adolygiad yn atal gweithredoedd cywirol pwysig na brys rhag cael eu rhoi ar waith yn y cyfamser o ganlyniad i ddigwyddiadau diogelwch gwybodaeth, yn unol â'r Polisi Rheoli Digwyddiad Diogelwch Gwybodaeth.

5.2 Bydd yr adolygiad yn darparu'r canlynol:

5.2.1 Asesiad o gynnydd tuag at gyflawni'r amcanion o ran diogelwch gwybodaeth fel y nodir yn y Polisi Diogelwch Gwybodaeth, a fydd yn cynnwys asesiad o fetrigau a gasglwyd, canlyniadau asesiadau risg asedau gwybodaeth allweddol ac unrhyw rwystrau tybiedig i roi rheolaethau diogelwch gwybodaeth a argymhellir ar waith;

5.2.2 Adolygiad o'r Polisi Diogelwch Gwybodaeth gydag asesiad o'r amcanion o ran diogelwch gwybodaeth i weld a ydynt yn berthnasol o hyd o ran amcanion strategol y Brifysgol ac unrhyw newidiadau i'r amgylchedd allanol;

5.2.3 Adolygiad o gyfleoedd ar gyfer gwelliant parhaol gan gynnwys nodi unrhyw fetrigau newydd i'w casglu, gan addasu'r rheolaethau diogelwch gwybodaeth sydd ar waith a nodi ffyrdd o ymgorffori diogelwch gwybodaeth ymhellach i brosesau busnes arferol y Brifysgol.

5.3 Caiff canlyniadau'r Adolygiad Blynyddol eu cyflwyno mewn adroddiad a gyflwynir i'r Grŵp Goruchwylio Rheoli Data a Gwybodaeth. Cyflwynir yr adroddiad ar y cyd â Chynllun Gweithredu gyda chyfrifoldeb ar gyfer pob cam gweithredu'n cael ei benodi i unigolyn y gellir ei adnabod a rhoddir amserlen. Caiff cynnydd yn erbyn y camau gweithredu ei fonitro yn ystod y flwyddyn gan y Grŵp Goruchwylio Rheoli Data a Gwybodaeth.

6 Cyfrifoldebau

Cyfrifoldeb Uwch-berchennog y Risg Gwybodaeth fydd sicrhau bod adolygiad blynyddol o'r Fframwaith Diogelwch Gwybodaeth wedi cael ei gynnal yn unol â'r polisi hwn a bod camau gweithredu wedi cael eu rhoi ar waith fel y nodir uchod.